EISTEDDFOD TREFEGLWYS 2019

Cynhaliwyd y 104 Eisteddfod a drefnwyd gan Pwyllgor Eisteddfod Trefeglwys eleni ar ddydd Sadwrn Hydref 5ed yn y Neuadd Goffa.
Y Beirniaid eleni oedd Aled Lewis Evans, Wrecsam yn beirniadu y Llên a Llefaru, gyda Nia Morgan, Y Bala yn beirniadu yr adran Cerdd. Alison ac Ella Whitticase Trefeglwys bu yn beirniadu'r Dawnsio. Roedd y gwaith llaw i'w weld yn addurno'r Neuadd Fwyta. Y Beirniaid yn yr adrannau yma oedd, Crefftau – Wendy Wigley, Llangurig, Llên y plant – Delma Thomas, Caersws, Llawysgrifen – Eryl Douglas Jones, Trefeglwys.
Bu'r Beirniaid yn brysur iawn trwy'r dydd yn arbennig yng nghyfarfod y prynhawn gyda dros pymtheg o blant mewn rhai cystadlaethau. Cafwyd cefnogaeth dda iawn o'r ysgol lleol, Ysgol Dyffryn Trannon.
Enillwyd y cwpan am y cystadleuydd mwyaf addawol gan Aria Davies, Llanbrynmair a Thlws Catrin Alwen am yr unawdydd gorau yng ngyfarfod gan Eos Jones, Llanfyllin,- mae'n siwr bydd dyfodol disglair i'r ddwy ohonynt. Holly Connor enillodd y cwpan yn yr adran grefftau am greu llun oedd yn portreadu "O dan y Môr a'i Donnau"
Bethan Lloyd Owen, Llanidloes, Sali Ann Preston, Llandinam a Gareth Jenkins o'r Amwythig bu yn cadw trefn ar cystadlaethau'r llwyfan, gydag Alwena Nutting, Aberhafesp yn cyfeilio yng nghyfarfod y prynhawn a John Moore, Yr Amwythig yng nghyfarfod yr hwyr.
Cynigwyd Tlws y Gadair eleni am gerdd ar y testun"Heddwch"; daeth tair cerdd i fewn i'r gystadleuaeth gyda Helen Davies o Felin Fach, Ceredigion yn fuddugol. Roedd ei cherdd hi yn sôn am ei chefnder y dyfarnwr rygbi Nigel Owens, y poen meddwl a gafodd ac yn y pen draw yr heddwch a gaed wrth gydnabod ei rywioldeb.
Y Beirniad Aled Lewis Evans bu yn arwain seremoni'r cadeirio, ac ar ôl ei feirniadaeth cyrchwyd y Bardd Buddugol i'r llwyfan gan Joyce Smithies a Susan Williams. Ceidwad y Cledd oedd Iwan Owen gydag Owen Lloyd Jones yn canu cân y cadeirio, a bu Bethan Lloyd Owen a Margaret Jones yn cyfarch y Bardd.
Llywydd yr eisteddfod eleni oedd Hywel Anwyl, Llanbrynmair. Bu ef yn son am y cyfeillgarwch a'r boddhad mae wedi cael wrth gystadlu mewn eisteddfodau dros Cymru gyfan ar y canu emyn dros chwedeg, bu yn adrodd llawer englyn a sawl stori ddigri a chafwyd y fraint o'i glywed yn canu emyn ar ddiwedd ei araith.
Ar ddiwedd y noswaith gwnaed y diolchiadau gan Cadeirydd y Pwyllgor Iwan Owen,- yn sicr cafwyd diwrnod i'w gofio.

Canlyniadau

Unawd oed Meithrin	1. Lydia Davies	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Ed Hughes	,, ,, ,,
	3. Llyr Lloyd	,, ,, ,,
Llefaru oed Meithrin	1. Frankie Davies	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Morgan Davies	,, ,, ,,
	3. Lydia Davies	,, ,, ,,
Unawd Bl 1 a 2	1. Nansi Hughes	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. William Savage	" " "
	3. Teleri Rowlands	Ysgol Dyffryn Trannon
	3. Aron Davies	Llanbrynmair
Llefaru Bl 1 a 2	1. Mari Evans	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Nansi Hughes	,, ,, ,,
	3. Aron Davies	Llanbrynmair
Unawd Bl 4 ag Iau	1. Eos Jones	Llanfyllin
	2. Aria Wyn Davies	Llanbrynmair
	3. Lexi Francis Jones	Ysgol Dyffryn Trannon
Llefaru Bl 4 ag Iau	1. Aria Davies	Llanbrynmair
	2. Carys Davies Williams	Ysgol Dyffryn Trannon
	3. Lexi Francis Jones	" " "
Unawd Bl 6 ag Iau	1. Holly Connor	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Teleri Roberts	Ysgol Rhiw Bechan

	3. Sophie Ashton	Ysgol Dyffryn Trannon
Llefaru Bl 6 ag Iau	1. Sophie Ashton	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Haf Higgs	,, ,, ,,
	3. Ffion Davies Williams	,, ,, ,,
Côr Plant	1. Parti Bethan	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Parti Iestyn	,, ,, ,,
	3. Parti Enlli	,, ,, ,,
Parti Cydlefaru	1. Parti Ysgol Dyffryn Trannon	
Unawd Piano Bl 6 ag Iau	1. Martha Jones Deklerk	Cas Gwent
	2. Eos Jones	Llanfyllin
	3. Ffion Davies Williams	Ysgol Dyffryn Trannon
Dawns Gyfoes Unigol Bl 6 ag Iau		
	1. Seren Thomas	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Caitlin Turner	,, ,, ,,
	3. Haf Higgs	,, ,, ,,
Grŵp Ddawns Gyfoes	1. Grwp Fflach	Ysgol Dyffryn Trannon
Unawd dan 16	1. Lois Wyn	Rhydymain
	2. Catrin Bufton	Sarn
	3. Lwsi Roberts	Meifod
Cân Werin dan 16	1. Lwsi Roberts	
	2. Rhian Lewis	Meifod
Deuawd dan 16	1. Catrin a Nerys	Sarn
Unawd Offerynol dan 16	1. Lwsi Roberts	Meifod
	2. Martha Jones Deklerk	Casgwent
	3. Rhian Lewis	Meifod
Unawd dan 21	1. Lois Wyn	Rhydymain
	2. Mared Jones	Dolgellau
Llefaru dan 21	1. Mared Jones	
Unawd dan 30	1. Mared Jones	
	2. Heledd Besant	Pennal
Llefaru dan 30	1. Mared Jones	
	2. Heledd Besant	
Unawd o Sioe Gerdd	1. Lois Wyn	
	2. Heledd Besant	
	3. Catrin Bufton	
	3. Lwsi Roberts	
Canu Emyn dros 60	1. Gwynne Jones	Llanafan
	2. Elen Davies	Llanfair Caereinion
	3. Aled Jones	Commins Coch
Her Unawd	1. Barry Powell	Llanfihangel Y Creuddyn
	2. Efan Williams	Lledrod
	3. Aneira Evans	Aberhosan
Her Lefaru	1. Heledd Besant	
	2. Maria Evans	Caerfyrddin
Unawd Gymraeg	1. Aneira Evans	
	2. Barry Powell	
	3. Efan Williams	
	3. Marianne Jones Powell	Llandre
Darllen o'r Beibl	1. Maria Evans	
Cân Werin	1. Marianne Jones Powell	
	2. Owen Lloyd Jones	
Côr	1. Côr Llanwnog	
Deuawd	1. Barry Powell ag Efan Williams	
Cerdd y Gadair	Helen Davies, Felin Fach, Ceredigion	
Englyn	John Ffrancon Griffith, Abergele	

Cyfansoddi Emyn,	Awen Powell, Yr Wyddgrug
Cân Ddigri	Eirys Buckland Evers, Glannau Dyfrdwy
	Graham Rees, Llandrindod (cyfartal)
Stori Fer	Gaenor Mai Jones, Rhondda Cynon Taf
Limrig	Gaenor Mai Jones a Gareth Jenkins, Amwythig (cyfartal)
Cyfansoddi Emyn Dôn	Nia Wyn Jones, Rhuthun
Stori Fer dan 16	1. Jack Glover, Y Fan 2. Lewis Ward, Llanidloes
	3. Robin Ellis, Llanidloes 3. Alys Jones, Llanidloes
Barddoniaeth Bl 5 a 6	1. Pheobe Glover, Y Fan 2. Rowan Evans 3.Luc Evans 4. Cameron Howells 5. Sali Owen
Barddoniaeth Bl 3 a 4	1. Llywelyn Turner 2. Menna Vaughan 3. Bethan Evans 4. Lexi Francis Jones 5. Dakota Harris